

PRIFFYRDD, CYMRU

2015 RHIF

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR O FLAEN 1 THE PARADE, CASTLE DRIVE, DINAS POWYS, BRO MORGANNWG) 2015

Gwnaed 17 Medi 2015

Yn dod i rym 24 Medi 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen 1 The Parade, Castle Drive, Dinas Powys, Bro Morgannwg) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y Cyngor" (*the Council*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "y datblygwr" (*the developer*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" (*the 1990 Act*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*the deposited plan*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir y tu allan i McColl's, The Parade, Castle Drive, Dinas Powys, Bro Morgannwg) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf

1990 gan y Cyngor ar 8 Ebrill 2015 o dan y cyfeirnod 2014/01480/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd

3. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Medi 2015

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r

graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn petryalog ei siâp o droetffordd, sy'n 3.76 metr yn y man hiraf ac yn 1.6 metr yn y man lletaf, o flaen 1 The Parade (siop bapurau McColl's), Castle Drive, Dinas Powys, Bro Morgannwg.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r datblygiad

Adeiladu ramp hygyrch allanol i alluogi personau i fynd i mewn i'r fangre yn ddiogel.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR O FLAEN 1 THE PARADE, CASTLE DRIVE, DINAS POWYS, BRO MORGANNWG) 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen 1 The Parade, Castle Drive, Dinas Powys, Bro Morgannwg) 2015 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn: Cyngor Cymuned Dinas Powys, Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Plwyf, 2 Heol Britway, Dinas Powys, Bro Morgannwg CF64 4AF neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1216433/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;
- o fewn 6 wythnos i 24 Medi 2015, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/ 2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI
(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y
Gorchymyn hwn**

Darn petryalog ei siâp o droetffordd, sy'n 3.76 metr yn y man hiraf ac yn 1.6 metr yn y man lletaf, o flaen 1 The Parade (siop bapurau McColl's), Castle Drive, Dinas Powys, Bro Morgannwg.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r datblygiad

Adeiladu ramp hygyrch allanol i alluogi personau i fynd i mewn i'r fangre yn ddiogel yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Bro Morgannwg ar 8 Ebrill 2015 o dan y cyfeirnod 2014/01480/FUL.